

Y Teulu

Darllen: Luc 15:32

Beth wnewch chi o'r tad yn nameg y Mab Colledig (Luc 15:11–32)? Sut gymeriad sydd ganddo o'i gymharu â'r ddau fab? A dyma gwestiwn mwy personol fyth: fydddech chi'n hoffi cael hwn yn dad i chi?

Dowch i ni geisio dadansoddi ei gymeriad a'i bersonoliaeth. Mae'n bur debyg ei fod yn boen enaid iddo fod y mab ieuengaf wedi gadael yr aelwyd a mynd i'r wlad bell. Colli aelod o'r teulu. Ond ar ben hynny, byddai'n rhaid iddo werthu rhan o'r stad er mwyn talu rhan o'r etifeddiaeth i'r mab ieuengaf. Yn ôl y gyfraith os oedd dau fab, roedd yr hynaf i gael dwy ran o dair o'r etifeddiaeth a'r ieuengaf i gael traean. Felly, roedd ymadawiad y mab ieuengaf yn golygu cryn boen ariannol i'r tad yn ogystal â'r poen meddyliol, ingol o golli'r mab ei hun. Mae'r pryder a'r poen yn ei amlygu'i hun yn y ffaith fod y tad yn chwilio am y mab, 'A phan oedd eto ymhell i ffwrdd, gwelodd ei dad ef' (15:19). Mae gofal, consyrn a gofid y tad yn amlwg, ynghyd â'r dyhead y byddai'r mab, ryw ddydd, yn dychwelyd.

Beth am agwedd y tad at y mab hynaf? Yr un yw'r dyhead yn ei berthynas â hwn hefyd. Er i hwn ystyfnigo a gwrthod mynd i mewn i'r wledd mae'r tad yn erfyn arno ac yn ei gymell yn daer i'r tŷ. Ie, yr un cariad a'r consyrn a welir yn ei berthynas â'r mab hynaf. Pechod mawr y mab hwn oedd gwrthod arddel ei berthynas â'i frawd, ac mae'r tad yn mynd ati'n ddiymdroi i'w atgoffa bod ei frawd wedi bod ar goll – aelod o'r teulu, ei gig a gwaed ef, ac felly 'Yr oedd yn rhaid gwledda a llawenhau, oherwydd yr oedd hwn, dy frawd, wedi marw, a daeth yn fyw; yr oedd ar goll, a chafwyd hyd iddo' (32).

Ond yn ei gariad at y mab ieuengaf y gwelwn y tad ar ei orau. Yma gwelwn ei gariad yn ymollwng yn llwyr, heb ddal dim yn ôl. Cariad heb hualau na llyffetheiriaau yw cariad y Tad. Mae'n tosturio wrtho, mae'n rhedeg ato; hynny yw, mae'n colli arno'i hun gan na fyddai dynion yn eu hoed a'u

hamser yn rhedeg, ond yn hytrach yn cerdded yn urddasol. Mae'n ei gusanu, i ddangos fod y berthynas wedi'i hadfer, ac mae'n cadarnhau hyn trwy roi modrwy ar ei fys a sandalau am ei draed. Nid fel gwas, er mai dyna a ddisgwyliai'r mab, y caiff ei dderbyn yn ôl, ond fel mab. Byddai'r caethwas yn cerdded yn droednoeth, ond rhoddir sandalau i hwn. Ac felly mae'r berthynas unwaith eto'n gyfan. A'r wledd i gloi'r cyfan.

Dyma gariad sy'n maddau cyn i'r mab ieuengaf ddweud dim am y wlad bell. Ac yn ôl y ddameg, nid yw'r tad yn holi dim am ei helynt yno. Mae'r cyfan wedi'i wneud yn lân, heb arlliw o edliw a gweld bai. Mae'r ddalen yn hollol lân, yn barod i ddechrau perthynas newydd, a honno'n berthynas o gariad ac ymddiriedaeth

Myfyrdod pellach:

Beth sy'n ein rhwystro rhag caru i'r eithaf?

Fyddech chi'n barod i roi teitl newydd i'r ddameg? Beth am 'Dameg y Duw Afradlon'?